# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD GWENER, 22 MEHEFIN 2018

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. Bryan Owen
Cyng. Nicola Roberts

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Sian Wyn Hughes
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Owain Williams
Cyng. Paul Rowlinson

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Nia Haf Davies | ***Rheolwr – UPCC (CG)*** |
| Gareth Jones | ***Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (CG)*** |
| Dewi Francis Jones | ***Prif Swyddog Cynllunio (CSYM)*** |
| Rhun ap Gareth | ***Uwch Gyfreithiwr (CG)*** |
| Ffion Madog Evans | ***Uwch Reolwr Cyllid (CG)*** |

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd Cyng. Richard Dew ei ethol fel Cadeirydd ar gyfer 2018 - 2019.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cafodd Cyng. Dafydd Meurig ei ethol fel Is- Gadeirydd ar gyfer 2018 - 2019.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Dafydd Meurig (CG), Cyng Richard Owen Jones (CSYM) ar Cyng Robin Williams (CSYM)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018 fel y rhai cywir.

## 7. CYFRIFON TERFYNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans, a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor bod gwahaniaeth rhwng y gyllideb 2017/ 2018 a'r cyfrifon terfynol 2017/ 2018 yn gysylltiedig â rhai eitemau gwariant, oherwydd, e.e. bod cyfanswm ffi'r Arolygydd i gwblhau'r Archwiliad yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ariannol yn is na ragwelwyd pan gafodd y proffil gwariant ei baratoi, bod llai o ddogfennau swmpus angen ei cyfieithu o fewn amserlen tyn, ayb.

Esboniwyd nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2018, oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Materion a godwyd:

i. Pam fod cwmni Deloitte wedi cael ei benodi yn hytrach na chwmni lleol?
ii. Beth sydd yn digwydd i'r 'tanwariant'?
iii. A ddylai'r £280 (Gwerthiannau) yn Atodiad A gael ei gofnodi yn rhes 3 (Cyfanswm derbyniadau arall) yn Atodiad B, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y ddau Atodiad?

Ymateb i'r materion a godwyd:

i. Mae'r cwmni'n cael ei benodi gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'r cwmni wedi eu hapwyntio yn Archwilwyr i Gyngor Gwynedd a'r cyd-bwyllgorau sy'n bodoli yng Ngwynedd a Môn.
ii. Mae'r arian ar gael i'w fuddsoddi yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r gwaith sy'n angenrheidiol yn y flwyddyn ganlynol.
iii. Cytunwyd gyda'r sylw.

**Penderfyniad:**

Penderfynwyd i dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Atodiad A ac Atodiad B. Fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

**CADEIRYDD**